



promoting equality in housing  
hybu cydraddoldeb ym maes tai



# Gweithredoedd nid Geiriau

## Cynnydd y Cynllun Gweithredu Hydref 2021 -Medi 2022



Rydym yn adeiladu cartrefi, yn creu cymunedau ac yn trawsnewid bywydau.

---

# Cyflwyniad

Llofnododd United Welsh addewid Gweithredoedd Nid Geiriau dan arweiniad yr elusen cydraddoldeb tai Tai Pawb yn 2020. Mae'n amlinellu ein hymrwymiad i gymryd camau i:

- Liniaru effaith Covid-19 ar staff a chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

- Wella amrywiaeth ethnig y bwrdd a'r staff ar bob lefel

- Gyfathrebu ac ymgysylltu

- Datblygu diwylliant cynhwysol

Lansiwyd Gweithredoedd nid Geiriau yn 2020 ar ôl i bandemig Covid-19 a phrotestiadau byd-eang yn dilyn llofruddiaeth George Floyd ddod ag anghydraddoldebau hiliol systemig a strwythurol i'r amlwg.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae anghydraddoldeb hiliol yn parhau i fod dan y chwyddwydr. Mae'r DU ar hyn o bryd mewn cyfnod o gynnwrf gwleidyddol ac economaidd gydag argyfwng costau byw cynyddol, ac yn yr un modd â phandemig Covid-19, mae'r argyfwng yn tynnu sylw at anghydraddoldebau cymdeithasol.

Datgelodd data diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynnydd mewn costau byw ac yn anffodus yn disgyn ymhellach o dan y llinell dlodi.

Tra bydd pawb yn teimlo canlyniadau chwyddiant cynyddol, mae'r effaith fwy ar grwpiau ethnig lleiafrifol yn datgelu un o'r nifer o resymau pam mae addewid Gweithredoedd Nid Geiriau yn parhau i fod o'r perthnasedd a'r pwysigrwydd mwyaf heddiw.

Mae United Welsh yn falch o fod yn rhan o gymunedau amrywiol ar draws De Cymru. Rydym am i'n cwsmeriaid deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, gyda mynediad teg at gyfleoedd i wella ansawdd eu bywyd. Rhaid inni barhau i wynebu'r heriau a deimlir gan ein cymunedau yn uniongyrchol.

Dyma ein cynnydd dros y 12 mis diwethaf.

## Gwnaethom addo i:

### Lliniaru effaith Covid-19 ar ein cydweithwyr a chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

Ein hymrwymiad	Yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud
<b>Mabwysiadu Offeryn Asesu Risg Covid-19 Cymru Gyfan ar unwaith</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cwblhawyd hyn yn 2021, a defnyddiwyd yr offeryn ochr yn ochr â phroses asesu risg pwrpasol United Welsh ar gyfer Covid-19</li><li>• Rydym yn parhau i fonitro canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â risg Covid-19.</li></ul>
<b>Diogelu llesiant staff Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill a allai fod yn teimlo eu bod yn cael eu heffeithio neu'n agored i niwed oherwydd y pandemig</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae penodi Swyddog Llesiant wedi arwain at ehangu cynnig United Welsh i staff yn ystod y 12 mis diwethaf i gynnwys cymorth mewnol gyda galar a cholled, bwyta'n iach, ymarfer corff, rheoli cyllid, gwirfoddoli, ymwybyddiaeth ofalgar a hunanofal iechyd meddwl.</li><li>• Mae hyn yn ychwanegol at gymorth gyda chwmsela, hyfforddi, datblygu sgiliau gwydnwch ac iechyd galwedigaethol</li><li>• Byddwn yn parhau i fonitro a yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu defnyddio gan aelodau o staff lleiafrifoedd ethnig ac a oes unrhyw rwystrau i gyfranogiad</li><li>• Ymarfer ymgysylltu â lleiafrif</li></ul> <p>mae staff yn cael eu cynllunio ar gyfer dechrau 2023 i gynllunio sesiynau yn benodol ar gyfer y grŵp staff hwn yn seiliedig ar eu hadborth.</p>
<b>Ymchwilio i'r rhesymau dros orlenwi a chyflwr tai gwaeth ymhlith pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ni ddangosodd adolygiad o'n data cwsmeriaid gydberthynas rhwng aelwydydd lleiafrifoedd ethnig a gorlenwi o fewn cartrefi a ddarperir gan United Welsh. Mae'r rhan fwyaf o'n heiddo mwy heb ei feddiannu gan bobl o gefndir ethnig lleiafrifol.</li></ul>

# Gwnaethom addo i:

## Gwella amrywiaeth ethnig y bwrdd a staff ar bob lefel

Ein hymrwymiad	Yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud
<b>Mabwysiadu Rheol Rooney i wella recriwtio pobl o wahanol gefndiroedd ethnig</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Cwblhawyd hwn yn 2021 i helpu i sicrhau bod ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol yn cael eu cyfwdel ar gyfer pob swydd a hysbysebwr lle bodlonir yr holl feini prawf hanfodol.</li></ul>
<b>Adrodd yn flynyddol a gweithredu ar y canfyddiadau ar gyfer data bwllch cyflog, recriwtio, dyrchafu a chadw ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Rydym wedi cyfrifo a chyhoeddi ein hadroddiadau bwllch cyflog a rhywedd lleiafrifoedd ethnig 2022 ar gyfer cydweithwyr yn ein Hadroddiad Blynyddol, yn seiliedig ar ddata hyd at 4 Ebrill 2022.</li><li>Rydym yn parhau i adolygu ac adeiladu'r data a adroddwyd eisoes o fewn ein fframwaith llywodraethu i wella adrodd yn y dyfodol.</li></ul>
<b>Buddsoddi yn ein sianeli recriwtio i ddenu ymgeiswyr o wahanol leiafrifoedd ethnig</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Rydym wedi adolygu ac adnewyddu'r iaith yn ein hysbysebion recriwtio er mwyn ceisio annog mwy o geisiadau gan gymunedau lleiafrifoedd ethnig.</li><li>Fe wnaethom ymuno â rhaglen 'Ewch i mewn i Dai' a gydlynwyd gan Gymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd i gefnogi pobl ddi-waith o gefndir ethnig lleiafrifol 25+ oed i gael gwaith. Rydym wedi cynnig lleoliadau gwaith â thâl i bump o bobl, am o leiaf 16 wythnos.</li><li>Ers hynny mae dau berson wedi sicrhau cyflogaeth llawn amser o fewn Grŵp United Welsh ac mae lleoliad person arall wedi cael ei ymestyn.</li><li>Mae nifer y ceisiadau am swyddi a gawn gan bobl sy'n nodi eu bod yn lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu 5%. Mae nifer y staff lleiafrifoedd ethnig a gyflogir gennym ni wedi cynyddu 1.8%.</li></ul>
<b>Hyfforddi'r holl staff ac aelodau bwrdd am ragfarn anymwybodol a chodi ymwybyddiaeth o fraint gwyn</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi orfodol ar ragfarn anymwybodol a gwrth-hiliaeth i'r holl staff ac aelodau'r Bwrdd. Mae 239 o bobl wedi cwblhau'r hyfforddiant.</li><li>Mae'r hyfforddiant hefyd yn rhan o'n proses sefydlu.</li><li>Rydym wedi creu pecyn hyfforddi 'gloywi' misol newydd i staff am nodweddion gwarchoddedig. Bydd y modiwl sy'n canolbwyntio ar hil yn cael ei lansio ym mis Chwefror 2023.</li></ul>

**Sicrhau bod ein paneli recriwtio yn amrywiol o ran ethnigrwydd**

• Fel rhan o'n strategaeth gwella recriwtio, rydym wedi bod yn ehangu ein paneli recriwtio i gynnwys aelodau staff arweiniol hyfforddedig a gwirfoddolwyr allanol o bob rhan o'r busnes.

• Mae holl staff United Welsh wedi'u gwahodd i wirfoddoli ar baneli recriwtio i wella eu hamrywiaeth a'r profiad recriwtio ar gyfer ymgeiswyr.

• Rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer gweithgareddau mentora fel y gall staff sydd wedi gwirfoddoli o'r blaen gefnogi pobl eraill i achub ar y cyfle a datblygu eu sgiliau.

# Gwnaethom addo i:

## Gyfathrebu ac ymgysylltu

Ein hymrwymiad	Yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud
<b>Rhoi cyhoeddusrwydd i gefnogaeth i gydraddoldeb hiliol</b>	<p>Rydym yn defnyddio ein llais ac yn nodi cyfleoedd i gefnogi ein cydweithwyr a chymunedau o gefndiroedd ethnig gwahanol, gan wneud ein safiad ar arfer gwrth-hiliaeth yn glir.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Rydym wedi parhau i roi cyhoeddusrwydd i'n cefnogaeth i gydweithwyr o leiafrifoedd ethnig. Ymhlith yr enghreifftiau mae casgliad o straeon staff cyhoeddedig i nodi Mis Hanes Pobl Dduon; codi ymwybyddiaeth o wyliau crefyddol a blogiau gydag aelodau newydd o staff.</li><li>• Rydym wedi hyrwyddo mentrau i wella cydraddoldeb hiliol, megis y rhaglen 'Ewch i Mewn i Dai'.</li><li>• Lanswyd adnewyddiad brand gennym ym mis Mawrth 2022, a oedd yn cynnwys gwaith celf a delweddau newydd sy'n fwy cynrychioliadol o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.</li></ul>
<b>Cyhoeddi ein hymrwymiad i gymryd camau penodol i fynd i'r afael â'r heriau a nodir gennym, ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rydym yn defnyddio ein cynllun gweithredu Gweithredoedd Nid Geiriau fel fframwaith ar gyfer ein canlyniadau a byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd.</li></ul>
<b>Dadgyfuno data ethnigrwydd o ddata boddhad cwsmeriaid i ddysgu a gwella profiadau pobl</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn dilyn paratoi ar gyfer y Ddeddf Rhentu Cartrefi a thrafodaethau yn ein Fforwm EDI a gynhelir bob deufis, rydym yn ystyried sut i agregu ein data yn fwy effeithiol i wella ein penderfyniadau a phrofiadau cwsmeriaid o'n cartrefi a'n gwasanaethau. Rydym hefyd yn ystyried hyfforddi cydweithwyr ar gyfer casglu gwybodaeth sensitif ac opsiynau i gynyddu faint o ddata sydd gennym.</li><li>• Rydym wedi diwygio'r data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gasglwyd gennym yn flaenorol i adlewyrchu set ddata'r SYG. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer gwerthuso a chymharu mwy cadarn rhwng ein data a data cenedlaethol. Rydym yn archwilio sut rydym yn diweddarau ein systemau meddalwedd i adlewyrchu'r newidiadau.</li><li>• Rydym hefyd wedi ystyried sut y gallwn ddadgyfuno data EDI mewn perthynas â boddhad cwsmeriaid. Mae cyfyngiadau system wedi ein hatal rhag gweithredu hyn hyd yma ond erys ar ein hagenda ni.</li></ul>

<b>Adeiladu mwy o gysylltiadau a chefnogaeth ar gyfer grwpiau cymunedol Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i feithrin eu gallu i gefnogi pobl leol a dod â gwybodaeth gymunedol a her i'r sefydliad</b>	• Ym mis Medi 2022, cymeradwyodd ein Bwrdd Strategaeth Cynnwys Cwsmeriaid newydd ar gyfer United Welsh. Mae hyn yn ceisio cynnwys cwsmeriaid mwy amrywiol o ran ethnigrwydd wrth ddylunio a defnyddio ein gwasanaethau
<b>Mewn ardaloedd gwasgaru lloches, ymrwmo i roi neu brydlesu tai i gymunedau ffoaduriaid (lle maent yn bodoli)</b>	• Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i ddarparu atebion tai i ffoaduriaid a grwpiau eraill o bobl dan anfantais.

# Gwnaethom addo i:

## Ddatblygu diwylliant cynhwysol

Ein hymrwymiad	Yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud
<b>Mae ein tîm arwain yn hyrwyddo ac yn monitro ein cynnydd ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn rhagweithiol</b>	<p>Mae cynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredu Gweithredoedd Nid Geiriau yn parhau i gael ei adrodd a'i fonitro'n chwarterol mewn cyfarfodydd tîm Gweithredol.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Adroddir ar gynnydd hefyd yn ein cynllun gwella rheoleiddio a adroddir i Lywodraeth Cymru.</li><li>• Mae'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar ein Bwrdd yn parhau i graffu ar gynnydd.</li><li>• Rydym wedi creu Gweithgor EDI sy'n rhedeg ochr yn ochr â'n Fforwm EDI chwarterol. Mae hyn wedi cryfhau ein gallu i gymryd camau cadarnhaol o fewn ein gwasanaethau ac ystyried anghydraddoldeb hiliol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.</li></ul>
<b>Hyrwyddo diwylliant cynhwysol lle mae pobl yn gyfforddus yn siarad am hil ac yn gallu dod â'u hunain i gyd i'r gwaith, ac mae'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn gyfforddus i leisio pryderon yn ymwneud â hil ac yn cael eu credu pan fydd hyn yn digwydd</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae ein digwyddiadau 'Dyma Fi' a Chlwb Cyfryngau yn parhau i redeg fel llwyfannau staff. Mae'r rhain yn fannau diogel i gydweithwyr siarad am faterion personol sy'n bwysig iddynt mewn fforwm agored, empathig a dysgu am brofiadau bywyd ei gilydd.</li><li>• Cynhaliwyd ein cynhadledd staff flynyddol ym mis Medi 2022, pan wnaeth ein tîm Gweithredol atgyfnerthu ein hymrwymiad i'n haddewid Gweithredoedd Nid Geiriau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol.</li><li>• Rydym wedi hyrwyddo straeon staff yn fewnol er mwyn mwyhau lleisiau ein staff lleiafrifoedd ethnig a chodi ymwybyddiaeth, megis myfyrdodau Mis Hanes Pobl Dduon a blogiau gyda phobl newydd yn ymuno â ni.</li><li>• Rydym yn parhau i ddefnyddio ein meddalwedd ymgysylltu â gweithwyr dienw TINYpulse i gael adborth a gwella ein diwylliant a'n harferion</li></ul>
<b>Buddsoddi mewn cynlluniau mentora o chwith i rannu profiadau a gwella cyfleoedd</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rydym yn hyfforddi staff i ail-lansio ein rhwydwaith hyfforddi mewnol. Rydym yn bwriadu tyfu'r rhwydwaith a byddwn yn archwilio mentora o chwith fel rhan o hyn</li></ul>



---

# Crynodeb

Mae United Welsh yn parhau i fod yn ymrwymedig i greu cymdeithas decach a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol i bobl yng Nghymru.

Er mwyn parhau â'n cynnydd, byddwn yn archwilio sut y gallwn gynnwys grwpiau mwy amrywiol o gwsmeriaid wrth ddylunio ein gwasanaethau, a'r opsiynau ar gyfer gwella a chynyddu'r wybodaeth sydd gennym. Bydd hyn yn cryfhau ein gallu i graffu ar ein gwasanaethau trwy lens hil a gwerthuso'n well y meysydd sydd angen eu datblygu.

Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ein harferion recriwtio i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth, ac mae cefnogi lles y bobl rydym yn gweithio gyda nhw yn parhau i fod yn uchel ar ein hagenda.

Edrychwn ymlaen at barhau â'n cynnydd gyda Tai Pawb a sefydliadau partner i gymryd camau cadarnhaol ar gyfer newid.

